Y Comisiwn Etholiadol

Datganiad eithrio gan blaid wleidyddol gofrestredig

Nodiadau esboniadol ar lenwi ffurflen RP6

Gall pleidiau sydd wedi'u cofrestru (neu sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru) ar gofrestr Prydain Fawr o bleidiau, gyflwyno datganiad eithrio sy'n datgan nad ydynt yn bwriadu ymladd unrhyw etholiadau cyffredinol Seneddol. Lle bo datganiad eithrio dilys wedi'i gyflwyno, caiff pleidiau eu heithrio o'r gofyniad i gyflwyno ffurflenni rhoddion wythnosol yn ystod cyfnod yr etholiad cyffredinol ar gyfer etholiadau cyffredinol Seneddol. Mae'n ofynnol i bleidiau nad ydynt yn cyflwyno datganiad eithrio gyflwyno adroddiadau wythnosol ar roddion (gan gynnwys datganiadau dim trafodion) yn ystod y cyfnod hwn.

Dylai pleidiau sy'n gwneud cais i gael eu cofrestru ond nad ydynt yn bwriadu ymladd etholiadau Seneddol lenwi ffurflen RP6 fel rhan o'u cais cofrestru. Mae'r datganiad hwn yn gyfrwymol ar gyfer unrhyw etholiadau Seneddol a gynhelir yn ystod y flwyddyn ar ôl i'r blaid gael ei chofrestru. Rhaid adnewyddu'r datganiad fel rhan o gadarnhad blynyddol y blaid o'i manylion cofrestredig (gellir dirymu'r datganiad hwn fel y bo angen).

Gall pleidiau sydd wedi'u cofrestru eisoes gyflwyno datganiad eithrio ar gyfer etholiad Seneddol penodol (h.y., bydd y datganiad yn gymwys i etholiad Seneddol a gynhelir yn y dyfodol, ond nid etholiadau dilynol). Dylid cyflwyno hwn o fewn saith diwrnod i'r dyddiad y cyhoeddir bwriad Ei Mawrhydi i ddiddymu'r Senedd mewn perthynas ag etholiad (h.y., dechrau'r cyfnod etholiad cyffredinol ffurfiol).

Gellir tynnu datganiad eithrio yn ôl drwy hysbysu'r Comisiwn gan ddefnyddio ffurflen RP7. Bydd yn rhaid i bleidiau sydd wedi gwneud datganiadau eithrio ond sydd heb eu tynnu'n ôl gyflwyno adroddiadau wythnosol ar roddion os bydd ganddynt ymgeiswyr yn sefyll mewn etholiad Seneddol.

Mae pob un o'r nodiadau canlynol yn cyfateb i adran wedi'i rhifo ar ffurflen RP6.

1 Manylion plaid gofrestredig

Nodwch enw cofrestredig y blaid, a rhif cyfeirnod y blaid. Dylai pleidiau sy'n llenwi ffurflen RP6 fel rhan o'u cais cofrestru adael adran rhif cyfeirnod y blaid yn wag, gan na fyddant yn cael eu rhif cyfeirnod tan *ar ôl* iddynt gael eu cofrestru.

2 Datganiad

Dilëwch y datganiad priodol. Dylai pleidiau sy'n cyflwyno ffurflen RP6 fel rhan o'u cais cofrestru ddileu'r ail ddatganiad a dylai pleidiau sy'n gwneud datganiad mewn perthynas ag etholiad penodol ddileu'r datganiad cyntaf a nodi dyddiad yr etholiad Seneddol perthnasol yn yr ail un.

3 Llofnodion

Rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi gan arweinydd a swyddog enwebu'r blaid. Os mai'r un unigolyn sy'n cyflawni'r ddwy swydd hyn, dylai'r ffurflen gael ei llofnodi gan un o swyddogion cofrestredig eraill y blaid (e.e., trysorydd y blaid ac ati).

Os na fydd naill ai arweinydd y blaid na'r swyddog enwebu yn gallu llofnodi'r ffurflen, rhaid i un o swyddogion eraill y blaid lofnodi'r ffurflen yn lle hynny, gan ddatgan ei fod wedi'i awdurdodi i'w llofnodi yn absenoldeb y swyddog cofrestredig ac egluro pam nad yw'r swyddog cofrestredig yn gallu llofnodi'r ffurflen.

Dylid dychwelyd ffurflen RP6 i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505

E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol

Datganiad eithrio gan blaid wleidyddol gofrestredig

Pwysig: dylid darllen y nodiadau esboniadol atodol cyn llenwi'r ffurflen hon.

1 Manylion plaid gofrestredig

Enw'r blaid

Cyfeirnod y blaid

2 Datganiad (dilëer fel y bo'n gymwys)

Datgenir drwy hyn nad yw'r blaid uchod yn bwriadu cynnig unrhyw ymgeiswyr i sefyll mewn unrhyw etholiadau cyffredinol seneddol.

Datgenir drwy hyn nad yw'r blaid uchod yn bwriadu cynnig unrhyw ymgeiswyr i sefyll yn yr Etholiad Cyffredinol Seneddol a gynhelir ar dd mm bbbb

3 Llofnodion

Swyddog cofrestredig o'r blaid

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad dd mm bbbb

Swyddog cofrestredig o'r blaid

Llofnodwyd

Enw wedi'i brintio

Dyddiad dd mm bbbb

Swyddog arall (os yw'n gymwys)

Datganaf fy mod wedi cael fy awdurdodi i lofnodi ar ran _____ (enw),

sef _____ (swydd yn y blaid) cofrestredig y blaid

sy'n methu â llofnodi'r ffurflen hon oherwydd _____ (rhowch y rheswm)

Llofnodwyd _____ Dyddiad ____ ____ ____
dd mm bbbb

Enw wedi'i brintio _____

Swydd yn y blaid _____

Dychwelwch y ffurflen hon i:

Party Registration Team
The Electoral Commission
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn: 0333 103 1928
Ffacs: 020 7271 0505
E-bost: partyreg@electoralcommission.org.uk
Gwefan: www.comisiwnetholiadol.org.uk

At ddefnydd y Comisiwn Etholiadol

Dyddiad derbyn ____ ____ ____ Gwiriwyd gan _____
dd mm bbbb

Dyddiad cofnodi yn y gronfa ddata ____ ____ ____ Rhif cyfeirnod ffeil _____
dd mm bbbb

Datganiad preifatrwydd

Dim ond er mwyn cefnogi ein swyddogaethau statudol y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a rowch i ni. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, nac unrhyw wybodaeth bersonol y gallwch ei rhoi am bobl eraill, ag unrhyw unigolyn oni bai bod yn rhaid i ni yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol dros gasglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen arnom er mwyn cyflawni tasgau er budd y cyhoedd ac arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i'r Comisiwn Etholiadol fel y nodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig a deddfwriaeth etholiadol arall.

Caiff rhywfaint o'r wybodaeth a gesglir yn y ffurflen hon ei dosbarthu'n ddata personol categori arbennig. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon er budd sylweddol y cyhoedd, sy'n seiliedig ar gyfraith y DU. Er mwyn prosesu'r math hwn o wybodaeth, mae'n rhaid bod gan y Rheolydd Data ddogfen bolisi berthnasol sy'n nodi'r modd yr ymdrinnir â'r wybodaeth hon.

Y Comisiwn Etholiadol yw'r Rheolwr Data a gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn dataprotection@electoralcommission.org.uk.

Gallwch ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd yn electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd i gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn prosesu data personol.